Medi 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Rhaglen fonitro: cymwysterau galwedigaethol a chyrff dyfarnu

Ysgrifennaf i'ch hysbysu am ein bwriad i fonitro cymwysterau galwedigaethol a chyrff dyfarnu dros y 24 mis nesaf. Nid yw'r llythyr hwn yn amlinellu'r gwaith a wnawn i fonitro cymwysterau cyffredinol (TGAU, TAG a Bagloriaeth Cymru) sydd wedi cael ei gwmpasu mewn gohebiaeth flaenorol.

Mae'r amserlen sydd wedi'i chynnwys yn y llythyr hwn yn amlinellu'r meysydd rydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt a'r terfynau amser ar gyfer cyflawni ein gwaith monitro. Lle y bo'n briodol, byddwn yn anelu at gydlynu ein gweithgareddau monitro mewn ffordd a fydd yn lleihau'r baich ar gyrff dyfarnu.

Byddwn yn ysgrifennu at y cyrff dyfarnu unigol a fydd yn destun y gweithgareddau monitro penodol gan roi gwybod am ein bwriadau mewn da bryd. Byddwn yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn cynnal y gweithgaredd monitro, gan gynnwys ein methodoleg a'r dystiolaeth y bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu ei darparu.

Nid yw ein rhaglen monitro a amlinellir yn y llythyr hwn yn hollgynhwysfawr a byddwn yn parhau i ymateb i unrhyw wybodaeth, digwyddiadau a risgiau a fydd yn llywio ein gwaith monitro.

Bydd y rhaglen fonitro hon yn rhan o'n Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol y byddwn yn ei chyhoeddi yn hwyrach eleni.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arnoch ynglŷn â monitro cymwysterau galwedigaethol a/neu fonitro cyrff dyfarnu, cysylltwch â ni yn ymholiadau@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Denver Davies
Uwch Reoleiddiwr Monitro a Chydymffurfio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Amserlen					
Medi 2016 - Chwefror 2017			Medi 2017 - Chwefror 2018		
Adolygu Datganiadau Cydymffurfiaeth 2016			Adolygu Datganiadau Cydymffurfiaeth 2017		
Medi 2016 - Awst 2017			Medi 2017 - Awst 2018		
Monitro cynlluniau gweithredu Datganiad Cydymffurfiaeth 2016			Monitro cynlluniau gweithredu Datganiad Cydymffurfiaeth 2017		
Medi 2016 - Awst 2018					
Monitro ac archwilio cyrff dyfarnu					
Medi 2016 - Awst 2018					
Monitro cymwysterau Sgiliau Hanfodol					
	Ionawr - Mehefin 2017				
	Monitro cymwysterau Cymorth Cyntaf				
			Awst 2017 - Ionawr 2018		
			Monitro cymwysterau Diogelwch Bwyd		
					Mawrth - Awst 2018
					Monitro cymwysterau Iechyd a Diogelwch